

---

## **Ymgynghoriad ar y newidiadau i'r Amodau Hawliau Cyffredinol**

Newidiadau i Amod Cyffredinol C6, mân newidiadau drafftio eraill a newidiadau i'r canllawiau ar gyfleusterau Adnabod y Galwr

---

### **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 26 Ebrill 2018

Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn Ymatebion: 28 Mehefin 2018

# Gair am y ddogfen hon

---

Yr amodau cyffredinol ydy'r rheolau sy'n cael eu gosod gan Ofcom y mae'n rhaid i bob darparwr cyfathrebiadau eu dilyn er mwyn gweithredu yn y DU. Ar 19 Medi 2017, cyhoeddodd Ofcom ddatganiad a oedd yn diddymu'r amodau cyffredinol cyfredol, ac yn gosod amodau cyffredinol newydd a fyddai'n dod i rym ar 1 Hydref 2018.

Mae un o'r amodau hynny (amod C6.6) yn mynnu bod darparwyr cyfathrebiadau'n cymryd camau i adnabod galwadau sydd â data adnabod y galwr annilys a'u rhwystro rhag cael eu cysylltu. Mae'r ddogfen hon yn ymgynghoriad ynghylch cynnig Ofcom i ddiwygio amod C6.6 i egluro na ddylid byth rhwystro galwadau i'r gwasanaethau brys rhag cael eu cysylltu.

Rydyn ni hefyd yn ymgynghori ar newidiadau ychwanegol i'n canllawiau ar gyfleusterau Adnabod y Galwr, yn dilyn adborth gan randdeiliaid. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â delio â galwadau i'r gwasanaethau brys a chanllawiau ychwanegol i ddarparwyr cyfathrebiadau ar yr ymarfer gorau mewn perthynas â rhwystro neu stopio galwadau nad ydyn nhw'n rhai brys.

Ar yr un pryd, rydyn ni hefyd yn cynnig nifer o fân newidiadau drafftio rydyn ni'n meddwl a fyddai'n ddefnyddiol eu gwneud i'r amodau cyffredinol newydd, cyn iddyn nhw ddod i rym yn nes ymlaen eleni.

# Cynnwys

---

## Adran

Crynodeb Gweithredol

1

# 1. Crynodeb

## Adolygu'r amodau cyffredinol

- 1.1 Yr amodau cyffredinol ydy'r rheolau rheoleiddio y mae'n rhaid i bob darparwr cyfathrebiadau eu dilyn er mwyn gweithredu yn y DU. Yn 2015 roedden ni wedi dechrau adolygiad cynhwysfawr o'r amodau hyn gyda'r nod o gynhyrchu set ddiwygiedig o amodau diweddar sy'n adlewyrchu blaenoriaethau a phryderon cyfredol Ofcom, ac sy'n symlach ac yn gliriach i'r diwydiant gydymffurfio â nhw.
- 1.2 Roedden ni wedi ymgynghori ynghylch ein hamodau diwygiedig arfaethedig ym mis Awst 2016 ac ym mis Rhagfyr 2016. Roedden ni wedi cyhoeddi ein prif benderfyniadau ym mis Medi 2017, ynghyd ag ymgynghoriad ar ychydig o newidiadau eraill. Cafodd ein penderfyniad ar yr ymgynghoriad hwnnw ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2018. Bydd yr holl newidiadau rydyn ni wedi penderfynu eu gwneud yn dod i rym ar **1 Hydref 2018**.

## Yr ymgynghoriad hwn

- 1.3 Mae un o'r amodau hynny (amod C6.6) yn mynnu bod darparwyr cyfathrebiadau'n cymryd camau i adnabod galwadau sydd â data adnabod y galwr annyls a'u rhwystro rhag cael eu cysylltu. Rydyn ni nawr yn ymgynghori ynghylch cynnig i ddiwygio'r amod hwnnw i egluro na ddylid byth rhwystro galwadau i'r gwasanaethau brys rhag cael eu cysylltu. Rydyn ni hefyd yn cynnig nifer o fân newidiadau drafftio i amodau eraill rydyn ni'n meddwl a fyddai'n ddefnyddiol eu gwneud i'r amodau cyffredinol newydd, cyn iddyn nhw dddod i rym yn nes ymlaen eleni.
- 1.4 Mae'r holl newidiadau rydyn ni'n cynnig eu gwneud i'r amodau cyffredinol yn cael eu dangos (drwy farciau) yn yr hysbysiadau sydd wedi'u hatodi i'r ddogfen Saesneg (Atodiadau A5 a A6).
- 1.5 Os byddwn yn penderfynu gweithredu'r newidiadau i Amod Cyffredinol C6.6, bydd hefyd angen diweddarau'r canllawiau Adnabod y Galwr. Felly, rydyn ni hefyd yn ymgynghori ar ein diwygiadau arfaethedig i'r canllawiau ar yr un pryd. Ar ben hynny, yn dilyn adborth gan randdeiliaid i'n hymgynghoriad blaenorol ar y canllawiau Adnabod y Galwr<sup>1</sup>, rydyn ni hefyd yn ymgynghori ar gynnwys canllawiau ychwanegol i ddarparwyr cyfathrebiadau ar yr ymarfer gorau mewn perthynas â rhwystro a stopio galwadau nad ydyn nhw'n rhai brys.
- 1.6 Rydyn ni'n gofyn i randdeiliaid gyflwyno sylwadau erbyn 5.00pm ar 28 Mai 2018.

## Y camau nesaf

- 1.7 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn yr haf.
- 1.8 Bydd y newidiadau arfaethedig, os cânt eu gweithredu, yn dod i rym ar **1 Hydref 2018**.

---

<sup>1</sup> Ychwanegu dolen at ddatganiad am ganllawiau Adnabod y Galwr yma.